Yma Gyda'n Gilydd

Rhifyn 3 - Nadolig 2021

Nadolig Llawen i bawb!

gan 9Q yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth
Mwynhewch y gwyliau!

Pêl-droed!	Cwis Nadolig!	Chwilair!
Ffilmiau!	Arolwg – Ydy'n amser banio ffonau yn yr ysgol?	Coginio!

*Mae **Rhifyn 2** allan hefyd!*

Spiderman: No Way Home
gan Trinity a Seren
Y cyfweliad Spider-man gyda Ava, Becca ac Iestyn

gan TRINITY

CYFWELIAD gyda AVA

Mae Ava yn meddwl bod Spiderman yn mynd i blaned arall sef y blaned Mawrth. Mae Ava yn meddwl bod Spiderman yn mynd i blaned arall i ymladd dyn drwg!

CYFWELIAD gyda BECCA

Mae gan Becca theori - mae hi'n meddwl bod y Dyn Corryn yn mynd i farw! Mae Becca yn meddwl bydd hyn yn ffilm drist iawn ac efallai yr un olaf. Gofynnais i Becca pam mae hi'n meddwl bydd y Dyn Corryn yn marw - ac atebodd hi gyda "Dwy'n meddwl bydd e'n marw oherwydd y dyn drwg iawn." Gawn ni weld!

CYFWELIAD gydag IESTYN

Mae Iestyn yn meddwl bod pobol yn mynd i ffeindio allan pwy yw'r Spiderman a bydd pawb yn gwybod mai Peter Parker yw e....gawn ni weld!

BETH WYT TIN MEDDWL? Ewch i wylio'r fideo yma ar YouTube!

https://youtu.be/rt-2cxAiPJk

Cwis Nadolig – *gan Mikayla*

1. Pa ddiod Nadolig boblogaidd a elwir hefyd yn "Punch Llaeth"?

2.Ble ganwyd y baban Iesu?

3.Faint o geirw sy'n tynnu sled Sion Corn (gan gynnwys Rudolph)

4.Enwch bob un o geirw Santa.

5.Pam roedd Sion Corn angen Rudolph i arwain ei sled y noson honno?

6.Pa gwmni pop sy'n aml yn defnyddio Sion Corn yn eu hysbysebion Nadolig?

7.Pa liw yw aeron uchelwydd?

8. Beth yw enw'r pedair wythnos cyn diwrnod Nadolig?

Lloegr v Yr Eidal

ffeinal Ewros 2021 - gan Morgan

Enillodd yr Eidal Pencampwriaeth Ewrop am y tro cyntaf ers 1968 wrth i Gianluigi Donnarumma arbed dwy gic gosb yn erbyn Lloegr ar y ffordd i fuddugoliaeth o 3-2 ar ôl i'r timau frwydro i gael gêm gyfartal 1-1 ar ôl amser ychwanegol yn Wembley mewn awyrgylch aflafar dydd Sul.

Roedd y gêm wedi dechrau gyda bang ac ar ôl 3 munud sgoriodd Luke Shaw dros Loegr. Roedd hi'n gôl wych a dweud y gwir ac roedd pawb yn Lloegr yn credu y byddai 'pêl-droed yn dod adre'. Ac am 50 munud arall roedd llawer yn meddwl bod Lloegr yn mynd i ennill.

Roedd Lloegr a'r Eidal wedi chwarae yn erbyn ei gilydd 27 gwaith ers y gêm gyntaf rhwng y cenhedloedd yn 1933, a daeth i ben mewn gêm 1-1. Yr Eidal sy'n dal yr ymyl hanesyddol gyda record o 11 buddugoliaeth ac wyth i Loegr, gydag wyth yn gyfartal. Ond dim ond un gêm sy'n cyfrif, maen nhw'n dweud, a dyna'r gêm diwethaf. Ac aeth tlws yr Ewros fynd adre ...i'r Eidal.

Geirfa:
buddugoliaeth (victory)
amser ychwanegol (extra time)
gêm gyfartal (a drawn game)

AGUERO!!! ...yn ymddeol!

gan Rhys

Mae'r seren pêl-droed enwog Sergio Aguero wedi ymddeol ar ôl 15 o flynyddoedd oherwydd problemau gyda'i galon. Ar ôl 4 mis yn chwarae gyda Barcelona roedd problem gyda'i galon wedi digwydd ar ôl cael dolur yn y galon. Yn ei gem olaf yn erbyn Alaves roedd rhaid i Aguero dod bant o'r cae o achos poen yn ei frest ac ar ôl hynny aeth e i'r ysbyty. Dywedodd y doctor wedyn bod ddim hawl iddo fe chwarae am 3 mis. Ond yn mis Tachwedd penderfynodd Aguero i ymddeol o achos y peryglon.

Mae rhai hen chwaraewyr wedi tynnu sylw i'r problem yma achos mae nifer o pêl-droedwyr enwog wedi datblygu problemau gyda'r galon yn y blynyddoedd diwethaf. Mae pawb yn cofio pan roedd Christian Eriksen wedi cwympo i'r llawr yn ystod gêm yn yr Euros. Roedd pawb yn diolch am byth roedd doctorwyr wedi rhedeg i arbed Christian. Mae e yn dda bod peiriannau diffibriliwr wedi cael eu gosod o gwmpas y stadiymau y dyddiau hyn.

Pob lwc i Sergio yn y dyfodol - am streicwr!

Geirfa: ymddeol (retire) calon (heart) peryglon (dangers)

Barn Marcus Rashford am Ole Gunnar Solskjaer yn cael ei diswyddo

gan Wil

Mae Marcus Rashford wedi amddiffyn rheolwr Manchester United, Ole Gunnar Solskjaer, gan ddweud y dylai chwaraewyr rhannu rhyw faint o fai am berfformio'n wael yn ddiweddar ac mae gan y dyn o Norwy ei barch o hyd.

Cafodd Ole Gunnar ei diswyddo ar ddydd Sul ar ôl collodd Man United yn erbyn Watford 4-1 y dydd gynt.

'Mae Man United wrth galon Ole, ni allai neb byth ddweud hynny,' meddai Rashford wrth y BBC. ***'I mi, mae'r parch y mae'n ei haeddu yn enfawr.'***

'Rwy'n teimlo bod cefnogwyr weithiau'n beio'r rheolwr. Dyw'r rheolwr ddim yn chwarae amdanom ni, mae'n credu y gallwn ei wneud.' Roedd Rashford yn gyflym i ganmol Solskjaer yn syth ar ôl ei ddiswyddo, gan dwîtio llun o'r bos sy'n gadael gyda'r pennawd: **'Club Legend'.**

Geirfa:
wedi diswyddo (sacked)
bai (blame) beio (to blame)
parch (respect)

Y Cyfryngau Cymdeithasol - problem mawr i ni?

gan Eilidh

Mae llawer o rieni'n poeni sut y gallai ddod i gysylltiad â thechnoleg sy'n effeithio ar ddatblygiad plant bach. Rydyn ni'n gwybod ein bod ni'n dysgu sgiliau cymdeithasol newydd ar gyflymder syfrdanol.

Mae arbenigwyr yn poeni bod **y cyfryngau cymdeithasol** a negeseuon testun sydd wedi dod mor hanfodol i fywyd yn yr arddegau yn hyrwyddo pryder ac nid yw pobl ifanc yn caru eu hunain fel yr oeddent yn arfer. Drwy dyfu i fyny gyda'r cyfryngau cymdeithasol rydyn ni'n rhoi straen arnon ni ein hunain trwy efelychu safonau harddwch amhosib. Mae hyn yn amharu ar iechyd meddwl ac mae hyd yn oed ein hiechyd corfforol trwy roi'r straen hwn ar ein pennau ein hunain. Mae yn ei roi ar ein cyrff hefyd, oherwydd bydd pobl yn gwneud pethau afiach i golli pwysau a chyd-fynd â'r safonau harddwch.

Seiber-fwlio hefyd yw un o broblemau mwyaf pobl yn gwneud pethau afiach, gallai rhywun eich sicrhau i wneud rhywun yn erchyll o sude arall y byd. cyn hynny, mae seiber fwlio wedi bod yn fwy creulon a haws dros y blynyddoedd, gall unrhyw un anfon neges destun at bob math o bethau na fyddwch chi byth mewn miliwn o flynyddoedd wedi meddwl eu dweud wrth wyneb unrhyw un.



Geirfa:

poeni (to worry) pryder (anxiety)
iechyd meddwl (mental health)
safonau harddwch (beauty standards)
creulon (cruel)

Eisiau help? Eisiau cyngor? Eisiau cefnogaeth?

https://www.stophateuk.org/resources/young-peoples-resource-hub/

Arolwg 9Q ar ffonau yn yr ysgol (9Q Survey)

Fyddech chi'n hapus i'ch ysgol wahardd ffonau symudol yn gyfan gwbl? (Would you be happy to see schools ban mobile phones completely?)

26 ymateb



Yn lle gwahardd ffonau symudol or' ysgol sut arall y gallai ysgolion helpu pobl ifanc ddefnyddio llai ar y cyfryngau cymdeithasol?

Cosb am ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn yr ysgol
Rhoi ffonau mewn bocs ar ddechrau'r wers
Creu posteri i atgoffa pawb i ddefnyddio ffonau'n gall
Darparu mwy o bethau eraill i wneud - yn enwedig tu allan
Annog plant dechrau hobi newydd
Cau'r apiau nes bod chi adre
Stopio WIFI yn yr ysgol
Dwy'n credu mae'r system hwn yn iawn yn barod. Yn lle i athrawon cadw dweud maen nhw mynd i fynd â fe i ffwrdd ac dim yn gwneud e. Ond oherwydd gormod o siawnsys dyw hwnna ddim yn dysgu plant sut i wrando. Dw' i wedi clywed lot o athrawon yn rhoi gormod o siawnsys.
Cael yr athrawes i dynnu nhw bant o'r plant pob gwers
Mwy o chwaraeon
Ddim ond cael hawl i defnyddio nhw yn ystod amser sbar.
Codi oedran caniatád i'r apiau.
Dim ffonau yn y gwersi o gwbl - dim ond amser egwyl



Y peth gorau am ddefnyddio eich ffôn symudol?

Gemau
Snapchat - siarad gyda ffrindiau
Face time
Instagram
I fi ,maen helpu iselder
Snapchat!
Chi'n gallu ffindo unrhywbeth chi moyn
Ymchwilio ffeithiau
Gallu gweld sgoriau pêl-droed
Gwaith cartref
Gwastraffu amser
Gwylio Youtube a Tiktok
Cysylltu â'r teulu
Snapchat!



Y peth gwaethaf am ddefnyddio eich ffôn symudol?

TikTok
Y newyddion neu y ap llyfrau
Mae'n gaethiwus
Gwybodaeth ffug (Fake info!)
Mae'n achosi iselder
Llyfrau (ddim yn deall yr ateb hwn - Gol.)
Gor-ddefnyddio nhw
Mae pobl erchyll ar y cyfryngau cymdeithasol
Mae na lot o bobl dych chi ddim yn gwbod ac mae angen bod yn ofalus.
Pobl yn bwlio
Snapchat
Colli trac o amser (ar TikTok yn enwedig) - a theimlo'n unig wedyn



Sut ydych chi'n teimlo os mae'n rhaid i chi eistedd yn dawel heb wneud dim byd? (How do you feel if you have to sit in silence without doing anything?)

Dim byd rili
Dw'n teimlo'n bôrd
wedi diflasu
Bôrd
OK fi'n gallu distracto fy hunan yn eitha tipyn
Yn isel
Yn grac
Fi'n gallu neud e ond dw i'n symud lot
Mewn prawf mae'n iawn ond gartre' byswn i'n mynd ar fy ffôn
Fi'n hoffi tawelwch
Bôrd mas fy meddwl!
wedi diflasu oherwydd dw i ddim yn gallu eistedd yn llonydd
Yn drist
Byddwn i yn bôrd - dwy'n fidjetan lot ac mae gyda fi lot o hyder (mwy hefyd) bydda i'n gallu cadw fy hunain yn 'entertained' ond byddwn yn mynd yn bôrd tamad fach.
Rydw i'n teimlo'n iawn am y 10 munud cyntaf wedyn mynd yn bôrd.
Bôrd
Sain lico fe. Gwell 'da fi ddarllen neu tynnu lluniau
Bôrd ond wedyn bydd amser i feddwl

Hefyd: beth am wylio'r fideo yma am pam mae bod yn bôrd weithiau yn bwysig:
"Why boredom is good for you" YouTube
https://www.youtube.com/watch?v=LKPwKFigF8U&t=292s

Coginio Nadolig

gan Hannah G

Cacen Gwpan Elff a Santa

Dull: Cam 1

Cynheswch y popty i 190c / 170c, marc nwy 5. Leiniwch y tuniau gydag cesys papur. Rhowch yr holl gynhwysion ar gyfer y cwpanau mewn powlen fawr gan ddefnyddio 4 llwy fwrdd o'r oren sudd, yna curo gyda'i gilydd am 1-2 munud nes ei fod yn llyfn.

Cam 2

Rhowch y gymysgedd cacennau yn y cesys, fel eu bod nhw'n dri chwarter llawn. Pobwch am 15-18 munud neu nes eu bod yn euraidd ac yn gadarn i'w cyffwrdd. Oerwch y tun am 5 munud, yna trosglwyddo i rac weiren.

Cam 3

Ar gyfer yr eisin, curwch y menyn, y fanila a'r siwgr eisin nes eu bod yn welw ac yn hufennog, gan ychwanegu 1-2 lwy fwrdd o ddŵr cynnes i'w lacio, os oes angen. Rhowch y cacennau gyda chyllell balet neu defnyddiwch fag pibellau i greu chwyrliadau sy'n ddigon dwfn i ddal coesau Siôn Corn a'r elff.

Cam 4

Ar gyfer y coesau, gwnewch swp o eisin hoffus gan ddilyn cyfarwyddiadau r pecyn. Torrwch y ffyn candy a'r losin pensil yn ddarnau 4cm. Defnyddiwch eisin fondant gwyrdd i fowldio esgidiau elf o amgylch coesau cansen candy ac eisin ffondant du i ffoldio esgidiau Siôn Corn o amgylch y coesau pensil mefus. Ychwanegwch ychydig o ffondant gwyn o amgylch top esgidiau Siôn Corn. Defnyddiwch yr eisin hoffus colur i lynu pêl arian neu aur ar bob troed o'r esgidiau elf. **A Mwynhewch!**

Ar gyfer y Cacennau Cwpan:
175g o fenyn, wedi'i feddalu
Siwgr caster euraidd 175g
3 wy
200g blawd hunan godi
1 oren, wedi'i sestio ac ½ sudd
Pinsiad o sinamon
1 llwy de o fanila (Extract)

Ar gyfer yr eisin:
100g menyn (heb halen), wedi feddalu
Dyfyniad fanila 2 lwy de
Siwgr eisin 250g, wedi'i hidlo

Ar gyfer y coesau:
Siwgr eisin (ffondant)
Ffyn candy
Losin pensil mefus
Eisin (fondant) du, gwyrdd a gwyn
Peli aur ac arian

Mwy yma: https://www.bbcgoodfood.com/recipes/elf-santa-cupcakes

Cwis Nadolig 2021

Cwestiynau gan Aled

Cwestiwn	
1	***Pa gig gwyn mae llawer o bobl yn bwyta ar ddiwrnod Nadolig?***
2	***Enwch un carw Sion Corn sydd yn dechrau gyda 'B'?***
3	***Faint o ysbrydion sydd yn y stori 'Christmas Carol'?***
4	***Ble oedd Iesu wedi cael ei eni?***
5	***Ble roedd Sion Corn wedi cael ei eni?***
6	***Pa liw oedd gwisg Sion Corn cyn i Coca Cola droi'n goch?***
7	***Pa actor sy'n chwarae 6 gwahanol cymeriad yn y ffilm 'Polar Express'?***
8	***Yn y ffilm 'It's a Wonderful Life' beth sydd yn digwydd pob tro mae cloch yn canu?***

Atebion ar y dudalen olaf

Fy ysgol i -
Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth

gan Jasmin

Y tro dwetha naeth dosbarth o ysgol arall darllen beth roedden ni'n creu yn ein cylchgrawn, roedd rhai eisiau gwybod mwy am ein hysgol ni. A dweud y gwir, dwy' ddim ond wedi bod yma ers mis Mai, ond dwy'n joio yma ac wedi gweld lot amdano beth mae ysgol hon yn gallu rhoi i ni.

I ddechrau off mae gyda ni lot o ystafelloedd tair llawr a'r bloc ar bob llawr. Lawr stâr mae na pynciau Coginio a TGCh, Mathamateg, Hanes a Daearyddiaeth ac yn olaf Gwyddoniaeth. Lan star mae na Cymraeg, Gwyddoniaeth, Celf a Saesneg. Mae na lot o opsiynau a ieithoedd rownd yr ysgol fel Sbaeneg, Eidaleg a Ffrangeg. (Dw i'n siarad Rwsieg hefyd!)
Ac oes ydych yn hoffi ymarfer corff mae na glybiau ar ôl ysgol!

Mae'r ysgol hon yn bendigedig! Mae'r athrawon yn dda iawn ac yn ddefnyddiol iawn. (Diolch - Gol.) Yn yr ysgol hon mae hawl cael ffonau symudol ac mae na hawl i chi wisgo eich gwisg ymarfer corff i'r ysgol pryd mae gyda ymarfer corff ar y dydd yna.

Mae fy sgôr am ein hysgol ni yw **4.5/5** :) Beth am eich ysgol chi?

AC-DC

gan Daniel

Band roc o Sydney, Awstralia yw AC/DC. Cafodd eu ffurfio ym mis Tachwedd 1973 ac roedd y grŵp yn wreiddiol yn cynnwys y bobl yma:

Dave Evans, prifleisydd
Angus Young, y gitarydd rhythm
Malcolm Young (ei frawd hŷn),
bas Larry Van Kriedt a'r drymiwr Colin Burgess.

Ffeithiau am ACDC

Defnyddiodd byddin yr Unol Daleithiau eu cerddoriaeth fel artaith.
Datblygodd y brodyr Malcom ac Angus Young y syniad ar gyfer enw'r band ar ôl i'w chwaer Margaret weld y llythrennau 'AC & DC' ar beiriant gwnïo. Mae'n meddal 'cerrynt eiledol/uniongyrchol'.
Yn 1998, cafodd AC/DC eu coffáu ar set stamp "Aussie Rock 'n' Roll"
Yn 2013, anrhydeddodd Post Awstralia AC/DC drwy gyhoeddi stamp post clawr o'r albwm 'Back in Black'.

Beth yw eich hoff fand chi ?

Caneuon Gorau Nadolig

gan Ava

1.All I Want for Christmas is You (Mariah Carey)
Mae wedi dod mas yn 2011
2.Last Christmas (Wham!)
Mae wedi dod mas yn 1984
3.Happy Xmas (Yoko Ono)
Mae wedi dod mas yn 1998
4.Santa Tell Me (Ariana Grande)
Mae wedi dod mas yn 2014
5.Fairy Tale of New York (Kirsty MacColl)
Mae wedi dod mas yn 1988

Fy hoff ganeuon fi yw...
1.Fairy Tale of New York (Kirsty MacColl)
Mae wedi dod mas yn 1988
2.Last Christmas (Wham!)
Mae wedi dod mas yn 1984
3.All I Want for Christmas is You (Mariah Carey)
Mae wedi dod mas yn 2011
4.Jingle Bell Rock (Bobby Helms)
Mae wedi dod mas yn 1970
5.Santa Tell Me (Ariana Grande)
Mae wedi dod mas yn 2014

Beth yw eich hoff 5 cân Nadolig chi?

Adolygiad 'Shadow and Bone Netflix'

Heddiw, rydyn ni yn mynd i adolygu y sioe 'Shadow and Bone' ar Netflix. Mae'r sioe hyn yn ffantysïol ac yn addas ar gyfer oed 15+.

Y Cast
Jessie Mei Li - Alina Starkov
Ben Barnes - General Kirigan
Archie Renaux - Mal Oretsev
Freddy Carter - Kaz Brekker
Amita Suman - Inej Ghafa
Kit Young - Jesper Fahey
...ac eraill

Mae 'Shadow and Bone' yn sioe ffantysïol am ferch o'r o'r enw Alina Starkov sy'n darganfod mai hi ydy'r unig ond 'gwysiwr haul' ('sun summoner') yn y byd. Mae pawb yn moyn i weld hi, i ddweud bod hi yn sant sydd wedi yn dod o'r awyr i achub nhw. Ond mae'r Cadfridog gyda chynlluniau eraill. Mae pawb moyn Alina i gael gwared o'r 'Shadow Fold' (gorchudd o dywyllwch sydd wedi rhannu'r wlad) ond mae'r Cadfridog moyn i ddefnyddio Alina i wneud y 'Fold' yn fwy. Mae'r stori yn cynnwys ffrindiau, hud a dihiryn sy'n gwysio cysgodion.

Rydyn ni'n meddwl bod 'Shadow and Bone' yn sioe anhygoel ac ddylai bawb weld e. Mae'n llawn troelli a throi, brad a phethau annisgwyl. Heb nac oni bai mae'n berformiad wych. Yn ein barn nii, mae'r stori yn greadigol ac wedi'i adasu'n dda o'r llyfrau. Ond, rydyn ni yn meddwl gallai'r trais fod yn ormod am rhai. Byddwn ni'n rhoi 4.5 mas o 5. Oherwydd, er bod cymeriadau anhygoel, mae plot y sioe teledu yn wahanol i'r plot yn y llyfrau.

Dyfodol y gyfres?
Darlledwyd ar Netflix ar Ebrill 23, 2021. Ffrydiwyd y sioe ffantasi gan 55 miliwn o bobl yn ystod 28 diwrnod cyntaf ei rhyddhau ac gorffen ar fin glogwyn wych. Mae pobl yn mynd yn wyllt am y tymor 2. Bydd tymor 2 o Shadow and Bone yn dod mas yn 2023.

https://www.youtube.com/watch?v=b1WHQTbJ7vE

gan Catrin, Piper a Tiz

Geirfa:
ar fin glogwyn (on a cliffhanger)
trais (violence)
dihiryn (villain)

Chwilair Nadolig

gan Steffan W

a	d	d	y	r	n	t	y	ng	u	i	i
d	f	d	n	ll	j	j	h	g	g	h	c
s	d	f	g	h	j	dd	l	n	rh	c	f
b	n	m	o	w	e	r	t	e	u	i	o
p	s	d	l	g	h	h	j	d	l	m	g
b	f	s	a	r	e	n	t	e	u	i	i
a	s	d	u	g	h	j	c	o	ll	c	l
d	b	n	m	m	n	f	b	c	ff	s	o
y	h	g	f	d	s	a	p	o	i	u	d
w	e	w	r	th	w	e	r	t	y	u	a
b	p	a	s	d	f	g	h	j	c	l	n
b	c	v	b	n	m	ch	**s**	**a**	**n**	**t**	**a**

Geiriau:

bwyd	**santa ✔**
cracer	**Nadolig**
anrhegion	**seren**
anrheg	**addurno**
golau	**coeden**

Inffograffeg Efrog Newydd

gan Kayla

Proffil Person Enwog

gan Elspeth

Rydw i wedi dewis sôn am Elizabeth Windsor (Brenhines Elizabeth II). Cafodd Elizabeth ei geni am 2:40 y bore ar yr 21ain o Ebrill yn 1926. Heddiw mae'r Frenhines yn 95 oed!
Mae gymaint o resymau pam mae hi'n enwog ond y mwyaf pwysig un yw sut mae hi gyda'r deyrnasiad hiraf yn hanes brenhinol Prydain.

Mae Elizabeth Alexandra Mary Windsor yn dod o Lundain, Lloegr. Mae hi dal yn byw yno hefyd! Mae ganddi hi ail gartrefi (cestyll) i fyw yno hefyd.

Oherwydd mae Elizabeth yn rhan o'r teulu brenhinol a taw hi yw'r Frenhines, mae ganddi tua £480 miliwn i £500 miliwn o arian! Mae hwnna'n fwy na chwarter biliwn o bunnoedd!

Ffaith rili diddorol iawn yw mae ei wyres hi, Zara Tindall, wedi cystadlu yn y gemau Olympaidd ym marchogaeth. Hefyd, oherwydd mae hi yn 95 oed mae hi wedi helpu pobl yn yr Ail Ryfel Byd! Un o'r sgiliau gorau oedd gan y Frenhines oedd fod yn fecanig hyfforddedig ac yn yrrwr lorri, roedd hi wedi dysgu rhain i helpu Prydain yn y rhyfel.

Rhai eraill o'r teulu brenhinol yw Tywysog Philip (sydd wedi marw), Charles Tywysog Cymru, Tywysog Harry a Thywysog William. Mae llawer o rai eraill hefyd, mae yr teulu brenhinol yn un fawr iawn.

Geirfa:

teyrnasiad (reign) brenhines (queen) brenhinol (royal)
tywysog (prince) wyres (grand-daughter)
cestyll (castles) gyrrwr lori (lorry driver)
Yr Ail Ryfel Byd (WW II)

Adolygu Ffilm Nadoligaidd - ELF!

gan Elspeth

Stori: Person cyffredin (Wil Ferrell) sydd wedi'i fabwysiadu gan Sion Corn a'r elffion bach ym mhegwn y gogledd. Ond un dydd mae e'n dysgu ei fod yn wahanol ac nid yn elff go iawn. Felly mae'r 'elff' yn cael ei daflu allan i ffeindio ei dad go iawn yn ninas Efrog Newydd.

Rhyddhawyd Elf yn gyntaf ar 14 Tachwedd 2003.

Genre: Comedi

Gwobrau: Gwobr ASCAP 2004, Top Box Office Films (John Debney) a 2004 Golden Trailer – Comedi Gorau.

Cast:

- Will Ferrell - Buddy,
- James Caan - Walter,
- Ed Asner - Santa Claus,
- Bob Newhart - Papa Elf

Barn: 4.5 / 5

Adolygu Ffilm - Cinderella 2021

gan Lucy

Yn yr erthygl yma rydw i'n mynd i adolygu'r ffilm newydd 'Cinderella' sy'n serennu Camila Cabello.

Y prif gymeriadau yn y film yw:
Cinderella: Camila cabello, Y Tywysog: Nicholas Galitzine
Mam y Tywysog: Minnie Driver
Tad y Tywysog : Pierce brosnan
Chwaer y Tywysog : Tallulah Greive

Plot y ffilm: (Oes rhywun sy' ddim y gwybod y plot?)
Pan mae Cinderella y forwyn i lys-fam a dwy lys-chwaer. Wedyn mae nhw yn mynd i ddawns fawr y tywysog oherwydd mae'r tywysog eisiau ffindo gwraig. Ond doedd Cinderella ddim yn gallu mynd ac wedyn oedd Y Fam-dylwyth-deg yn dod ac yn gwneud hi'n hyfryd i fynd i'r ddawns fawr. Hefyd mae hi yn rhoi masg arni hi felly doedd neb yn gallu gweld pwy oedd hi. Ond, wrth gwrs, mae'r hud yn gorffen am hanner nos ac bod rhaid i Cinderella fynd adref ond mae hi'n anghofio bod rhaid iddi oherwydd y hud. (Druan arni!)
Felly mae hi'n rhedeg i'r cerbyd ond mae esgid hi yn dod bant felly mae'r tywysog yn mynd mas i chwilio amdani wrth chwilio am y ferch sydd â throed sy'n ffitio i mewn i'r esgid. Mae'r tywysog yn ffindio hi ac wedyn maen nhw'n priodi ac yn byw yn hapus fyth wedi hynny. (Hyfryd iawn - Gol.)

Byddaf yn rhoi'r ffilm hon - 4 seren
...oherwydd mae hi'n ffilm dda i'r teulu i gyd i'w gwylio!

Pêl-rwyd gan Hannah W

Ffeithiau:

Mae pêl-rwyd yn chwaraeon sydd yn cael ei chwarae gan ddau dîm o saith. Mae pêl-rwyd yn boblogaidd iawn mewn lωt o wahanol o wledydd. Mae pêl-rwyd yn cael ei chwarae mewn 80 o wahanol gwledydd.

Hanes:

Roedd pobl yn dechrau chwarae pêl-rwyd ym Mhrydain yn 1895 yng ngholeg Ostenberg yn Lloegr.

Rheolau pwysig:

Dydych chi ddim ond gallu cadw'r bêl am 3 eiliad a dydych chi ddim yn gallu symud gyda'r bêl. Rydych chi'n gorfod bod yn 3 troed o'r person gyda'r bêl i amddiffyn ym mhêl-rwyd.

Geirfa:
gwledydd (countries)
amddiffyn (defend)

Proffil Clwb Pêl-droed

MANCHESTER UNITED

gan Ceri

Heddiw bydda i'n ysgrifennu erthygl am fy hoff glwb - yr un a'r unig - Manchester United - Man U, The Red Devils!

Mae Manchester United yn dîm pêl-droed proffesiynol yn Lloegr a ddechreuodd fel tîm yn 1878. Ond yn y dyddiau cynnar hynny roedd enw'r tîm yn wahanol sef- Newton Heath.

Ar yr adeg honno, roedd Manchester United yn dîm da iawn a nhw oedd y tîm cyntaf yn Lloegr i ennill Pencampwriaeth Ewrop yn 1968. Hefyd maen nhw wedi ennill Prif Gynghrair Lloegr 20 o weithiau sy'n record. Rhwng 1986 a 2013 roedd gyda nhw rheolwr da iawn o'r enw Syr Alex Ferguson a fe enillodd lawer o dlysau i Manchester United gan gynnwys 13 tlws Uwchgynghrair a 2 Gwpan Ewrop. Mae gan Manchester United lawer o chwaraewyr eiconig fel **Cristiano Ronaldo** (yn isod), Wayne Rooney, Roy Keane, Rio Ferdinand, Paul Scholes a Ryan Giggs.

Geirfa:

dyddiau cynnar (early days)

pencampwriaeth (championship) tlws (trophy)

Atebion y Cwis Nadolig - gan Mikayla

1. Pa ddiod Nadolig boblogaidd a elwir hefyd yn "Punch Llaeth"?
Ateb: Eggnog
2.Ble ganwyd y babn Iesu?
Ateb: ym Methlehem
3.Faint o geirw sy'n tynnu sled Sion Corn (gan gynnwys Rudolph)
Ateb: 9
4.Enwch bob un o geirw Santa.
Ateb: Dasher, Dancer, Prancer, Vixen, Comet, Cupid, Donner, Blitzen a Rudolph!
5.Pam roedd Sion Corn angen Rudolph i arwain ei sled y noson honno?
Ateb:Roedd yn rhy niwlog, ac roedd angen trwyn coch Rudolph ar Siôn Corn i oleuo'r ffordd.
6.Pa gwmni pop sy'n aml yn defnyddio Sion Corn yn eu hysbysebion Nadolig?
Ateb: Coca-Cola
7.Pa liw yw aeron uchelwydd?
Ateb: gwyn
8. Beth yw enw y pedair wythnos cyn diwrnod Nadolig?
Atev: Adfent

Atebion Cwis Nadolig Aled		
1	*Pa cig ydy pobol yn bwyta ar Nadolig?*	*Twrci*
2	*Enwch un ceirw sudd yn dechrau gyda B?*	*Blitzen*
3	*Faint o ysbrydion sydd yn y Christmas Carol?*	*4 Ysbryd*
4	*Ble oedd Iesu wedi cael ei eni?*	*Bethlehem*
5	*Ble roedd Sion Corn wedi cael ei eni?*	*Twrci*
6	*Pa liw oedd Sion Corn cyn Coca Cola.*	*Gwyrdd*
7	*Pwy ydy yn chwarae 6 gwahanol cymeriad yn Polar Express?*	*Tom Hanks*
8	*Yn y film ' Its a Wonderful life' beth sydd yn digwydd pob tro mae gloch yn canu?*	*Mae angel yn cael adenydd*